tafod elái

TACHWEDD 2008

Rhif 232

Pris 60c

CWMNI CYMREIG YN CIPIO GWOBR DDYLUNIO RYNGWLADOL

Mae cwmni dylunio dwyieithog o Gaerdydd *Cynllun Kutchibok Design* wedi cipio gwobr yn y gystadleuaeth ryngwladol gydnabyddedig - Dyluniad Pecynnu Ifanc 2008 a gynhaliwyd yn y Wladwriaeth Tsiec, am gynllun ar gyfer brand o siocledi Cymreig- *Hipo Hyfryd.*

Kutchibok oedd yr unig gwmni o'r Deyrnas Unedig i dderbyn gwobr yn y gystadleuaeth i ddylunwyr o dan 30 - cystadleuaeth sydd yn denu elît byd-eang y diwydiant dylunio.

Siôn Dafydd ac Alwyn Thomas

Fe drechodd *Kutchibok* gystadleuaeth gref gan dros 350 o ddylunwyr ifanc o wledydd fel Canada, Gwlad Pwyl, Bwlgaria, Gwladwriaeth Tsiec, Slofacia a'r Ffindir.

Trefnwyd y gystadleuaeth gan wneuthurwyr pecynnu byd-eang *Model Obaly* a *Chanolfan Dylunio Slovak* ac fe'i beirniadwyd gan banel o feirniaid rhyngwladol a ddywedodd: "Mae brandio a phecynnu corfforaethol Kutchibok ar gyfer siocledi *Hipo Hyfryd* yn adeiladu ar werthoedd ac egwyddorion clasurol a phrofiadol dylunio ac mae hyn yn amlwg yn y dewis o ddeunydd, gwneuthuriad, defnyddioldeb a'r edrychiad graffig sy'n nodweddu'r pecyn trawiadol hwn."

Siôn Dafydd, 28 o Bentyrch ac Alwyn Thomas 28 o Bontypridd yw'r cynllunwyr a chyfarwyddwyr sefydlol cwmni *Cynllun Kutchibok Design*, sydd wedi ei leoli ym Mae Caerdydd.

Yn 2007 enillodd *Kutchibok* y wobr arbennig 'Gwaed Newydd' yng nghystadleuaeth Gwobrau Dylunio Dwyieithog, Bwrdd Yr Iaith Gymraeg - cystadleuaeth a ddenodd dros 1,000 o geisiadau ledled Cymru. Hefyd yn 2007 ymddangosodd gwaith brandio *Kutchibok* ar gyfer *Ecoddylunio Cymru* yn arddangosfa *Gŵyl Ddylunio Caerdydd* a deithiodd o amgylch Ewrop.

Helpu'r di-gartref

Cyngor Ysgol Garth Olwg yn cludo nwyddau i'r digartref yn Stryd y Felin, Pontypridd.

Tintin yn Gymraeg

Bydd dau lyfr newydd yng nghyfres Tintin yn cael eu cyhoeddi ar 6ed Tachwedd. Addaswyd y llyfrau Tintin Cymraeg gan Dafydd Jones o Benybont. Rhagor am Tintin ar dudalen 6



Colli Swyddi

Mae Cwmni L'Oreal yn bwriadu gwerthu ei ffatri yn Nhonysguboriau i gwmni Fareva gan fygwth y bydd 200 o swyddi yn diflannu.

Mae'r ffatri yn cynhyrchu shampŵ a deunyddiau steilio gwallt ac ar hyn o bryd mae 260 yn gweithio yno.

Ond oherwydd fod 70% o'r deunydd crai yn cael ei fewnforio o dramor a bod costau trafnidiaeth yn "annerbyniol" bydd mwyafrif y gwaith yn symud i wlad arall.

Mae'r perchnogion newydd, Fareva, wedi dweud eu bod nhw am ddatblygu'r safle o fewn ychydig o flynyddoedd.

Cynllun Iaith Gwasanaeth Iechyd

Mae Ymddiriedolaeth Cwm Taf sy'n darparu gwasanaethau iechyd cymunedol, iechyd meddwl ac ysbytai yn bennaf ar gyfer trigolion Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful yn ymgynghori ar Gynllun Iaith Gymraeg er mwyn egluro sut y bydd yr Ymddiriedolaeth yn trin yr ieithoedd Cymraeg a Saesneg yn gyfartal wrth gynnal busnes â'r cyhoedd. Gellir darllen y Cynllun ar www.cwmtaf.wales.nhs.uk. Dylid danfon unrhyw sylwadau erbyn 17 o Dachwedd.

tafod elái

GOLYGYDD
Penri Williams
029 20890040

HYSBYSEBION
David Knight 029 20891353
DOSBARTHU
John James 01443 205196
TRYSORYDD
Elgan Lloyd 029 20842115
CYHOEDDUSRWYDD
Colin Williams
029 20890979

Cyhoeddir y rhifyn nesaf
ar 5 Rhagfyr 2008
Erthyglau a straeon
i gyrraedd erbyn
26 Tachwedd 2008

Y Golygydd
Hendre 4 Pantbach
Pentyrch
CF15 9TG
Ffôn: 029 20890040
e-bost
pentyrch@tafelai.net

Tafod Elái ar y wê
http://www.tafelai.net

Argraffwyr:
Gwasg
Morgannwg
Castell Nedd SA10 7DR
Ffôn: 01792 815152

Gwasanaeth addurno, peintio a phapuro

Andrew Reeves

Gwasanaeth lleol ar gyfer eich cartref neu fusnes

Ffoniwch

Andrew Reeves
01443 407442
neu
07956 024930

I gael pris am unrhyw waith addurno

MERCHED Y WAWR
Cangen y Garth

Lyn West a Siân Pickard yn siarad am syndrom Downs
Nos Fercher 8.00yh
12 Tachwedd 2008
Yn Neuadd Pentyrch

Gwasanaeth Nadolig
dan ofal Cangen y Garth
1 Rhagfyr 2008
Capel y Methodistiaid, Radur.

Ymweliad â Sioe Aeaf Llanelwedd
2 Rhagfyr 2008
Am ragor o fanylion, ffoniwch:
01443 297583

Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd

Nos Lun, Tachwedd 17, 2008
Teitl i'w gadarnhau - Lowri Mainwaring (UWIC)

Nos Lun, Rhagfyr 8, 2008
Croeso nôl i Eogiaid Afon Taf - Mike Evans (Asiantaeth yr Amgylchedd)

Cynhelir pob cyfarfod yn ystafell G77 ym mhrif adeilad y Brifysgol yn Park Place (gyferbyn â Undeb y Myfyrwyr) am 7.30pm, oni hysbysir yn wahanol.

www.cymdeithaswyddonolcaerdydd.org

CYMDEITHAS GYMRAEG LLANTRISANT

Cinio Nadolig
Yn Brookes, Tonysguboriau
Dydd Gwener, 5 Rhagfyr

Manylion: 01443 218077

Cydnabyddir cefnogaeth

Noddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru
Sponsored by Welsh Assembly Government

BWRDD YR IAITH GYMRAEG • WELSH LANGUAGE BOARD

www.bwrdd-yr-iaith.org.uk

CLWB Y DWRLYN

Twmpath Dawns
gyda Jac y Do
8.00yh Nos Sadwrn
15 Tachwedd
Neuadd y Pentref, Pentyrch
Tocynnau £6
Oddi wrth: 029 20890314

CYLCH CADWGAN

Dr Richard Wyn Jones
Rhoi Cymru'n Gyntaf
'Dulliau chwyldro'
neu'r llwybr seneddol?

Yng Nghampws Gymunedol
Gartholwg, Pentre'r Eglwys
Nos Wener, 28 Tachwedd 2008
am 8.00pm

Cydnabyddir cefnogaeth
yr Academi Gymreig

Manylion pellach:
029 20891577

RIVERVIEW CHIROPRACTIC

81 HOPKINSTOWN ROAD,
PONTYPRIDD, CF37 2PS

01443 650634

AM DRINIAETHAU EFFEITHIOL AM BOEN

GWDDF A CHEFN
PEN TOST
YSGWYDDAU A PHEN-GLINIAU
"WHIPLASH"
SCIATICA
AC
ANAFIADAU CHWARAEON

YN OGYSTAL AG ASESIAD
IECHYD LLAWN
MEWN AWYRGYLCH
HAMDDENOL A GLAN

DR OLWEN A GRIFFITHS
BSc. (HONS) CHIRO

GCC & BCA COFRESTRIEDIG

PONTYPRIDD

Gohebydd Lleol:
Jayne Rees

Swydd Newydd.
Llongyfarchiadau i Julie Richards, Hillside View, Graigwen ar ei hapwyntiad fel golygydd i Wasg y Lolfa. Bu Julie yn gweithio am nifer o flynyddoedd i'r Amgueddfa Genedlaethol.

Babi Newydd
Croeso mawr i Cadi a anwyd yn ystod yr haf i Eleri Griffiths a'i phartner Pete, Pantygraigwen. Chwaer fach i Alaw ac Elan ac wyres arall i Gwen a Gwyn Griffiths, Maesycoed.

Priodas
Dymuniadau gorau i Elin Llywelyn, gynt o Graigwen a briododd Gareth Williams yng Nghapel y Tabernacl, Efail Isaf ddydd Sadwrn, Hydref 25ain.

Y Pencampwyr
Fe ddaeth llwyddiant i ddau fachgen o Bontypridd wrth iddynt gystadlu yn y cwis teledu "Pencampau". Roedd Huw Blainey, Graigwen a Steven Williams, Coed y Cwm yn cynrychioli Ysgol Gyfun Rhydfelen. Edrychwn ymlaen at eu gweld yn y rownd nesaf.

Merched y Wawr
Cynhaliwyd cyfarfod yn adeilad y YMCA, Pontypridd er mwyn ffurfio cangen newydd o'r mudiad cenedlaethol. Mae ymgyrch arbennig gan Ferched y Wawr ar hyn o bryd i sefydlu canghennau newydd. Buodd cangen ym Mhontypridd yn y 70au.

Bwriedir cwrdd ar yr ail nos Iau o bob mis. Bydd lleoliad y cyfarfodydd yn dibynnu ar y gweithgaredd y noson honno. Bydd y cyfarfod cyntaf nos Iau 13eg o Dachwedd. Croeso cynnes i bawb. Dyma gyfle i gwrdd â hen ffrindiau a dod i nabod Cymry eraill o'r ardal.

Mae llwyddiant y gangen newydd yn dibynnu ar eich cefnogaeth chi!

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â Margaret Francis - mags45@hotmail.com neu ffoniwch 01443 492838

Llwyddiant "Kutchibok"
Llongyfarchiadau i "Kutchibok" cwmni dylunio graffeg Alwyn Thomas, Stryd Llwynmadog a Siôn Dafydd, Pentyrch am ennill gwobr arbennig yng nghystadleuaeth "Gwobr Dylunio Pecynnu Ewropeaidd i Ieuenctid 2008" (European Young Packaging Design Awards 2008) yng Ngweriniaeth Tsiec yn ddiweddar.

Dyluniwyd pecynnau gyda labeli uniaith Gymraeg ar gyfer tryffls siocled Hipo Hyfryd. Ardderchog wir!

YSGOL GYFUN LLANHARI

Ddydd Gwener, Medi 26 cynhaliwyd Gŵyl Traws Gwlad Llanhari i lansio ymgyrch PESS yn yr ysgol a'r ysgolion cynradd sy'n bwydo. Mae PESS yn ymgyrch genedlaethol gan y Cynulliad a'r Cyngor Chwaraeon i godi safonau addysg gorfforol yn yr ysgolion.

Fe gymerodd dros 400 o ddisgyblion rhan yn y traws gwlad gyda'r pwyslais ar iechyd a ffitrwydd ond yn bennaf mwynhau. Daeth disgyblion ysgolion cynradd Llantrisant, Dolau a Thonyrefail i fyny i Lanhari i gystadlu yn y traws gwlad ac yn y pnawn fe gafodd y disgyblion wers gymnasteg, gemau ac awyr agored i gael blas ar yr hyn sydd yn ei disgwyl y flwyddyn nesaf.

Ysgol Berfformio Bro Taf

Erbyn hyn mae 85 o blant yn mynychu Ysgol Berfformio Bro Taf yn wythnosol. Maen nhw'n cwrdd bob nos Fawrth yn Ysgol Heol-y-Celyn i fwynhau canu, actio a dawnsio. Ar ôl eu llwyddiant mewn eisteddfodau, mae eu sylw erbyn hyn wedi troi at eu cynhyrchiad cyntaf, sef y sioe Nadolig 'Y Dyn Wnaeth Ddwyn y 'Dolig'. Byddan nhw'n perfformio y penwythnos cyn y Nadolig – cewch y manylion llawn yn y rhifyn nesaf. Os gwyddoch chi am blant rhwng 6 a 14 oed hoffai ymuno yn yr hwyl, bydd cyfle iddyn nhw ddod yn aelodau o Fro Taf ar ôl y Nadolig.

Prosiect arall sydd ar y gweill yw cymryd rhan mewn gŵyl dawnsio ryngwladol ym Majorca y Pasg nesaf.

Prynu ar-lein a chefnogi'r Fenter laith

Gallwch gefnogi'r Fenter drwy wneud eich siopa ar-lein yn

www.buy.at/menteriaith

Dewis eang o Amazon, M&S, Littlewoods a gwasanaethau eraill.

CYMORTH.COM

Llinellau ffôn Cymraeg

Mae llawer o wasanaethau yn darparu llinellau ffôn Cymraeg. Ewch i www.cymorth.com i gael y rhifau ffôn.

PANTO

MARTYN, MAM A'R WYAU AUR

Y MIWNI, PONTYPRIDD
TACH 25 - 28

Nos Fawrth Medi 30 gwahoddwyd Aelodau Pwyllgorau Eisteddfod Caerdydd i dderbyniad gyda Maer Caerdydd i ddiolch am lwyddiant Eisteddfod 2008.

Taith gerdded y Dysgwyr

Ysgol Garth Olwg

Ymwelwyr o'r India

Tîm Pêl-droed

Hysbysfwrdd Rhyngweithiol Swyddi Cymraeg

www.safleswyddi.com

Hysbysfwrdd Rhyngweithiol Swyddi Cymraeg

www.safleswyddi.com

Canolfan Datblygu Busnes,
Ystad Ddiwydiannol
Trefforest,Pontypridd, CF37 5UR,
ffôn: 01443 843800,
www.jobtraccymru.com
www.safleswyddi.com

Edrych am waith?
Defnyddiwch eich iaith

Cyngor yr Ysgol

Pwyllgor Eco

Hwyl Llangrannog

Stori gyda Myfanwy Neal

Ysgol Garth Olwg

Cyngor Eco a Chyngor yr ysgol
Llongyfarchiadau mawr i'r plant a gafodd eu hethol ar gyfer y Cyngor Eco a Chyngor ysgol.
Y Cyngor Ysgol - Grace Jones, Erin Jones, Gruff Bowen Jones, Amy Jenkins, Daniel Thomas, Katherine Hamilton, James Warman, Connor Williams, Lauren Goddard, Leah Cole, Franky Sieniawnski, Tia Rees, Timothy Rattray a Holly Christopher.
Cyngor Eco - Brooke Web, Zac Mather, Elis Widgery, Harriett Hooper, Tirion Welsby, Ieuan Vincent, Tomos West, Isabel Price, Aimme Freeguard, Joe Sienawski, Sam Hill, Ffion Haf Thomas a Timothy Rattray

Disgo a thrip i Gaerfaddon
Diolch yn fawr i'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon am drefnu'r disgo ysgol. Diolch i'r holl blant a rhieni am eu cefnogaeth! Yn ogystal, diolch yn fawr i Mrs Mo Rundle am drefnu trip i Gaerfaddon.

Dathliadau'r Cynhaeaf
Gwahoddwyd y Parch Eirian Rees i'r ysgol yr wythnos diwethaf i arwain gwasanaeth Cynhaeaf i'r Adran Iau a'r Babanod. Fel rhan o'r dathliad, daeth plant â thuniau bwyd sych a phethau ymolchi o'u cartrefi fel cyfraniad i'r digartref ym Mhontypridd. Diolch i'r Cyngor ysgol a aeth â'r nwyddau i'r digartref yn Stryd y Felin, Pontypridd.

Dosbarth Meithrin
Mae plant Meithrin Mrs Hale a Miss MacDonald wedi bod wrthi yn paratoi cawl llysiau fel rhan o'u gwaith ar y Cynhaeaf. Ar ôl bod wrthi yn paratoi'r llysiau yn y bore, roedd y cawl yn barod i'w fwyta erbyn y prynhawn! Roedd yn flasus iawn!

India
Croesawyd athrawon o'r India i'r ysgol ddiwedd mis Medi fel rhan o'r prosiect UKIERI. Cafodd yr athrawon daith o gwmpas ein hysgol ni, ysgol Maes yr Haul, Pen-y-Bont, Malpas Court Primary Casnewydd, a Gilwern Primary. Cawsant gyfle i siarad a thrafod gyda'r plant a'r athrawon. Diolch i Mrs Morris am drefnu adloniant ar eu cyfer!

Llangrannog
Mwynheuodd Blynyddoedd 5 a 6 benwythnos prysur yn Llangrannog ddechrau mis Hydref. Er y glaw, roedd y plant wrth eu boddau yn sgïo, merlota, gwibgartio, nofio ac ati! Diolch i'r staff a aeth i helpu dros y penwythnos.

Clwb Carco
Mae Clwb Carco yr ysgol yn mynd o nerth i nerth ar hyn o bryd! Mae'r clwb yn cynnig sesiwn crochenwaith, parti Calan Gaeaf, noson gelf Tân Gwyllt, a pharti Nadolig sydd wedi'u trefnu'n barod! Cysylltwch â Mrs Langdon yn yr ysgol am ragor o fanylion.

Mrs Myfanwy Neal
Mae Dosbarth Mrs Evans, Mrs Hale a Miss MacDonald yn mwynhau sesiwn stori gyda Mrs Neal, ESIS bob bore Mercher. Mae'r plant wedi mwynhau gwrando ar y stori, ac mae cyfle ganddynt i actio'r stori ar ddiwedd y sesiwn!

Chwaraeon
Pêl-rwyd
Chwaraeodd tîm pêl-rwyd yr ysgol yn erbyn Llanilltud Faerdref. Er colli'r gêm 5-1, chwaraeodd y tîm yn dda iawn a gwelwyd perfformiadau ardderchog gan rai! Da iawn chi! Diolch i Eleri Roberts am fod yn gapten ar gyfer y gêm.

Pêl-droed
Nos Fercher, chwaraeodd y tîm pêl-droed yn erbyn Castellau. Roedd un tîm cymysg, ag un tîm o fechgyn. Capten y tîm bechgyn oedd Gruffydd Bowen Jones, a'r tîm oedd Steffan Prince yn gôl, Dylan Hughes a Trystan Vaughan fel amddiffynwyr, Rhys May, Gruffydd Bowen Jones a Joshua Maksimovis yng nghanol cae, a Kieran Rees ac Oliver Kittridge yn ymosod. I'r tîm cymysg, chwaraeodd Rhys Swainston yn y gôl, fel amddiffynwyr roedd Erin Jones, Chloe Hyde a Zac Mather, canol cae oedd Emily Wells a Lewys Mahoney, ac yn ymosod roedd Laura Cadwgan.

Sgoriodd Rhys May 2 gol, Kieran 2 gol a Gruffydd 1 gol. Yn y diwedd gorffennodd y gêm 6-5 (yn anffodus) i Gastellau. Yn y gêm gymysg, sgoriodd Zac 2, Chloe 1, ac Emily 1. Gorffennodd y gêm 5-3 i Garth Olwg. Chwaraeodd y ddau dîm yn arbennig o dda. Cawson ni lawer o hwyl!

Gan Gruffyd Bowen Jones
ac Erin Lewis Jones

Traws Gwlad yr Urdd
Aeth Blynyddoedd 3, 4, 5 a 6 i ysgol Gyfun y Ddraenen Wen i gystadlu yng nghystadleuaeth Traws Gwlad yr Urdd. Daeth Gwenno Davies yn ail yn ras merched Blwyddyn 3, Evan Lucas yn 7fed yn ras bechgyn Blwyddyn 3, Connor Williams yn l0fed yn ras Bechgyn Blwyddyn 4 ac Amy Boundford yn 8fed yn ras merched Blwyddyn 5. Da iawn i bawb a gymerodd rhan!

Clwb Cerdded Dysgwyr Morgannwg

Mae llawer o'n dysgwyr wedi mynegi diddordeb mewn teithiau cerdded ac o'r diwedd dyn ni wedi llwyddo i ffurfio Clwb Cerdded. Ddydd Sadwrn 11eg o Hydref cawson ni ein taith gynta, ac roedd hi'n fendigedig, y daith a'r tywydd.

Roedd 30 o bobl, yn ddysgwyr a Chymry Cymraeg wedi ymgynnull tu allan i dafarn y Mountain Hare ym Mryna Gwynion am 10.30 ar fore heulog o Hydref ac fe gawson ni ein harwain gan Peter Hatherley. Mae Peter yn byw ym Mhen-y-bont ac yn dysgu Cymraeg yn y Coleg ym Mhorthcawl. Mae e'n gerddwr brwd ac yn cerdded llawer gyda chymdeithas Bannau Brycheiniog ac roedd e wedi trefnu taith o tua 4-5 milltir ar hyd y caeau i Lanharan ac yna lan y bryn tuag at adfeilion eglwys Llanbad. Cawson ni ychydig o hanes yr eglwys gan Peter a chyfle i weld golygfeydd godidog o'r tir islaw hyd at afon Hafren a Gwlad yr Haf, cyn dychwelyd yn sychedig i'r Mountain Hare ar hyd llwybr gwahanol. Dechrau bendigedig i'r Clwb. Bydd y daith nesaf ddydd Sadwrn 8 Tachwedd a bydd yn dechrau am 10.30 o faes parcio Clwb Coedely, Teras Nant Melyn CF39 8BA. Mae croeso cynnes i unrhyw un ymuno â ni.

Rhwng nawr a dechrau Tachwedd mae taith gyda ni i oedolion a phlant o amgylch Stadiwm y Mileniwm - ddydd Llun 27 Hydref, a gweithdy gwydr yn y Tŷ Model yn Llantrisant ddydd Gwener 7 Tachwedd.

Rhaid archebu lle am y ddau ddigwyddiad yma ac i wneud hynny cysylltwch â: Shân Morgan 07990578407.

Cofiwch hefyd am ein clybiau cinio sy'n cwrdd yn fisol.

Clwb Cinio Pen-y-bont y trydydd dydd Mercher bob mis am 12 o'r gloch ym mwyty'r Tymhorau yng ngholeg Pen-y-bont; Clwb Cinio Pontypridd y dydd Mawrth cyntaf ym mhob mis am 1 o'r gloch ym mwyty Just Because ym Mhontyclun.

Tintin yn dweud "helo" yn Gymraeg yn Llantrisant

Ddydd Iau, 6 Tachwedd, bydd y newyddiadurwr pengoch Tintin yn bwrw'i wreiddiau Cymraeg yn siop lyfrau Borders yn Llantrisant, pan fydd ei lyfrau cynta ers dros chwarter canrif yn gweld golau dydd yn Gymraeg.

Dyma fydd achlysur cyhoeddi dau deitl Tintin yn Gymraeg, sef *Mwg Drwg y Pharo* ac *Awyren 714 i Sydney*, yn barod i ddiwallu chwantau cannoedd o'i ffans yng Nghymru sy wedi bod yn awchu am gael darllen amdano yn Gymraeg ers hydoedd.

Mae poblog-rwydd llyfrau Tintin a'i anturiaethau cyffrous yn anferthol. Yn wreiddiol o Wlad Belg, ac yn ffrwyth dychymyg yr awdur Hergé, mae'r straeon amdano wedi cael eu cyfieithu i dros 70 o ieithoedd. Ac yn dilyn saib fu'n rhy hir o lawer, mae'r cyhoeddwyr Dalen wedi dod â'r cymeriad hoffus a'i gyfeillion nôl i siarad Cymraeg.

Yn ystod diwrnod cyfan o ddigwyddiadau i lansio'r gyfres Gymraeg, bydd siop Borders yn croesawu pawb sydd am wybod ychydig bach mwy am Tintin. Yn ystod y dydd, o hanner dydd ymlaen, bydd disgyblion o ysgolion Cymraeg yr ardal yn cael cyfle i ddysgu sut i ddarlunio Tintin, i ddarganfod sut mae mynd ati i addasu llyfrau Tintin o'r Ffrangeg gwreiddiol i'r Gymraeg, ac i glywed am lwyddiant Tintin ar draws y byd gyda'r arbenigwr rhyngwladol am Tintin, Michael Farr.

Gyda'r nos, am 6.30pm, bydd lawns ffurfiol y llyfrau Tintin Cymraeg yn cael ei gynnal yn Borders. Unwaith eto bydd Michael Farr yn annerch, ynghyd â Dafydd Jones fu'n gyfrifol am addasu'r llyfrau i'r Gymraeg, ac Alun Ceri Jones, cyhoeddwr Dalen, gyda derbyniad ar thema Gwlad Belg i ddilyn.

Gall unrhyw un sy'n dymuno dod i'r lansiad alw heibio, drwy gysylltu ymlaen llaw â tintin@dalenllyfrau.com, neu ffonio 01239 811442.

Addaswyd y llyfrau Tintin Cymraeg gan Dafydd Jones o Benybont. Bu Dafydd yn ddisgybl yn Ysgol Llanhari yn y 70au, lle cafodd flas ar wella'i Ffrangeg drwy bori drwy lyfrau Tintin. Byth ers hynny, bu'n un o ffans pennaf Tintin – a gwaith yr awdur Hergé yn gyffredinol – ac mae ei gyfieithiadau newydd yn binacl ar freuddwyd fu ganddo ers blynyddoedd.

"Fe wnes i ddechrau darllen llyfrau Tintin yn Llanhari, gan ddychmygu ac uniaethu â'r digwyddiadau yn y byd



eang drwy'r cloriau," meddai Dafydd, "ac roedd hyn wastad drwy'r Gymraeg".

Ers cyhoeddi'r llyfrau Tintin Cymraeg yn gyntaf nôl ar ddechrau'r 80au, mae Dafydd wedi cael dros chwarter canrif i feddwl sut alle fe wella ar y cyfieithiadau hynny. Dyma'r tro cynta i *Mwg Drwg y Pharo* ac *Awyren 714 i Sydney* ymddangos yn Gymraeg, ac erbyn hyn mae gwedd newydd i Tintin a'i ffrindiau.

Enw newydd ei gi bach ffyddlon yw Milyn; ei gyfaill o forwr yw'r Capten Hadog; y gwyddonydd penchwiban sy'n gwmni afieithus i Tintin yw Ephraim R Efflwfia; a'r ddau ddtectif sy'n dueddol o wneud popeth o chwith yw Parry-Williams a Williams-Parry.

Mae *Mwg Drwg y Pharo* ac *Awyren 714 i Sydney* wedi eu sgwennu'n ystwyth mewn dull y bydd darllenwyr o bob cwr o Gymru yn gallu uniaethu ag e. Gyda'r jôcs cynnil, yr enwau penigamp, ar straeon anturus, bydd y llyfrau Tintin Cymraeg yn sicr o fod at ddant pawb o bob oedran sy'n hoffi stori dda am y cymeriad byd-enwog eiconig.

Tintin: Mwg Drwg y Pharo a *Tintin: Awyren 714 i Sydney* pris £6.99 yr un. Mae mwy o fanylion am y llyfrau ar wefan Dalen, sef www.dalenllyfrau.com

GILFACH GOCH

Gohebydd Lleol:
Betsi Griffiths

Canolfan Cymdeithasol Bethania
Mae llawer o waith wedi ei wneud yn ddiweddar ar Ganolfan Gymdeithasol Bethania yn Evanstown ac mae ystafell wedi ei darparu ar gyfer cyfrifiaduron. Yr hydref yma mae llawer o weithgareddau wedi eu darparu ar gyfer y cyfrifiaduron. Yn ystod yr haf cafwyd cyfarfodydd pryd roedd pobl yn edrych ar hen luniau o Gilfach ac yna yn ysgrifennu brawddeg neu ddwy i esbonio beth oedd yn y llun. Bu Mr Wyndham Jones yno hefyd yn dangos y DVDs mae ef wedi gwneud o hen luniau'r cwm. Bwriedir mynd ymlaen â'r gwaith yma a sefydlu Cymdeithas Hanes er mwyn ysgrifennu hanes rhai o'r Cymdeithasau a'r mudiadau sydd yn y cwm, er mwyn ei gadw i'r dyfodol. Bydd y Gymdeithas Hanes yn cyfarfod ar ddydd Llun olaf y mis. Croeso Cynnes i bawb. 'Does dim angen gwybodaeth o'r cyfrifiadur i fynd i'r Gymdeithas Hanes dim ond diddordeb yn yr hyn a fu. Ar brynhawn dydd Llun mae Hanes Teulu neu Hel Achau. Dewch yno i weld pwy oedd eich cyndeidiau ac o ble y daethant i'r Gilfach.

Hen Adeilad
Mae un adeilad yn Evanstown wedi bod yn achosi gofid i'r trigolion ers sawl blwyddyn sef hen Ffatri Jenmore, oherwydd ei gyflwr. Mae llygod mawr o gwmpas y lle ac mae'r adeilad yn mynd o ddrwg i waeth. Mae wedi bod ar werth ers sawl blwyddyn ond does neb eisiau ei brynu. Yn awr mae'r trigolion wedi trefnu deiseb i'w chyflwyno i'r Cynulliad a'r aelod Seneddol er mwyn cael ei wared

Ordeinio Gweinidog
Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Mathew James ar gael ei ordeinio yn weinidog ar Eglwys Gymunedol Y Graig sy'n cyfarfod yn Neuadd

Cystadleuaeth Tintin
I roi cynnig ar ennill eich Milyn bach eich hunan atebwch y cwestiwn canlynol yn gywir, ac anfon eich ateb trwy ebost (tintin@dalenllyfrau.com) neu lythyr at Dalen, Glandŵr, Tresaith, Ceredigion SA43 2JH, erbyn 21 Tachwedd 2008 (cofiwch roi eich enw a'ch cyfeiriad!)
Beth yw enw Milyn, ci bach Tintin, yn Ffrangeg?
(a) Snowy (b) Struppi (c) Milou
Cyhoeddir holl reolau'r gystadleuaeth ar wefan Dalen, www.dalenllyfrau.com

PENTYRCH

Gohebydd Lleol:
Marian Wynne

CYLCH CADWGAN
Daeth tyrfa niferus ynghyd i stiwdio Acapela (capel Horeb gynt), Pentyrch, nos Wener Hydref 3 i gyfarfod Cylch Cadwgan a drefnwyd gan Glwb y Dwrlyn. Noson oedd hi yng nghwmni y Parch Huw Jones gyda chefnogaeth gerddorol Arfon Gwilym a Sioned Webb - dau sy'n flaengar ym maes cofnodi a chyflwyno canu gwerin yng Nghymru, fel y gŵyr aelodau Clwb y Dwrlyn gan iddynt gynnal noson i'r Clwb rhyw flwyddyn yn ôl.

Stori Hwiangerddi oedd testun Mr Jones ac aeth ati gydag afiaith i olrhain cefndir y traddodiad Cymreig - afiaith oedd yn gwrth-ddweud y ffaith ei fod yn tynnu at ei ddeg a phedwar ugain! Cyffyrddwyd â hanes, a chefndir cymdeithasol a llenyddol y stôr o hwiangerddi sy'n rhan o'n treftadaeth gan dynnu sylw at rai o'r awduron, lle maent yn hysbys. Yn ogystal, adroddodd ambell hwiangerdd a gyfieithwyd i'r Saesneg (yn ddigon carbwl!). Drwy'r cyfan cafwyd cyflwyniadau ar gân gan Arfon Gwilym, gyda Sioned Webb yn cyfeilio, a'r gynulleidfa yn cael rhwydd hynt i ymuno yn yr hwyl.

Cyfarfod arbennig, felly, ond yn ogystal â chael clywed y gwesteion 'roedd nifer wedi cymryd y cyfle i gael golwg ar du fewn yr hen gapel a gweld y newidiadau y mae Catrin Finch a Hywel Wigley wedi eu cyflawni. Teg dweud bod cryn ganmoliaeth ac edmygedd o'r gwaith addasu a'r modd y cwblhawyd y cyfan yn chwaethus a thrawiadol.

Noson o fwynhad a chyfle hefyd i ddiwallu chwilfrydedd.

PENBLWYDD HAPUS
Dathlodd Gill Rees a Ken Jones benblwydd arbennig yn ddiweddar, felly llongyfarchiadau iddynt. Mae yna fanteision fel gallu teithio ar y bws am ddim!

CYDYMDEIMLAD
Cydymdeimlwn ag Ann a Rhodri Jones a Marged wedi marwolaeth tad Ann. Cydymdeimlwn a Mrs. Margaret Davies, mam Ann, hefyd a dymunwn yn dda iddi gan nad yw hithau wedi bod yn iach yn ddiweddar. Roedd Mr Dewi Davies yn frodor o Lanpumpsaint a chynhaliwyd yr angladd yn Arberth.

Arfon Gwilym, y Parch Huw Jones a Sioned Webb

CROESO NÔL
Croeso nôl i Nia Morris wedi iddi dreulio cyfnod yn Awstralia fel rhan o'i chwrs meddygaeth. Dymunwn yn dda iddi wrth iddi ail gydio yn ei gyrfa nôl yma.

RYGBI RHYNGWLADOL
Mae Siôn Dafydd, Penmaes, wedi cael ei ddewis i chwarae rygbi dros Gymru (tîm yr amaturiaid) yn erbyn tîm cyntaf yr Almaen yn Berlin ym mis Tachwedd.

"VALLEY OF SONG"
Bu David ac Anne George a rhai o'u ffrindie yng nghanolfan y Phoenix yn Nhon Pentre yn ddiweddar. Yno fe ddangoswyd un o'r ffilmiau o Archif Genedlaethol Sgrin a Sain Cymru - "Valley of Song" a gynhyrchwyd yn 1953. Aelodau o Gymry Llundain oedd yn gyfrifol am y canu corawl ac yn ymddangos fel rhai o'r 'extras' yn y ffilm yma. Yn eu plith, dros hanner can mlynedd yn ôl erbyn hyn, 'roedd David George. Fe gafodd 'noswaith i'r brenin' yn gweld ei hun yn ifanc unwaith eto! Bu'n siarad â phobl yr Archif am y profiad o ffilmio ac ar y diwedd gofynnwyd iddo godi ar ei draed i dderbyn cymeradwyaeth y gynulleidfa - seren y noson !

Mae llun David George i'w weld yn amlwg ar y poster a oedd yn hysbysebu'r noson a hefyd llun chwaer Eirlys Davies - y ddau yn aelodau o gôr Cymry Llundain bryd hynny.

David George, yr ail o'r chwith

Y Gymraeg bob tro

Ydych chi eisiau i'r cyngor gyfathrebu â chi fel unigolyn, naill ai drwy lythyr neu dros y ffôn, trwy gyfrwng y Gymraeg?

Os felly, ffoniwch, anfonwch lythyr neu neges ebost yn nodi'ch manylion

Uned Gwasanaethau Cymraeg
Tŷ Trevithick Abercynon
Aberpennar CF45 4UQ . **01443 744033**
Caroline.m.mortimer@ rhondda-cynon-taf.gov.uk

CREIGIAU

Gohebydd Lleol:
Nia Williams

Cydymdeimlad
Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf i Helen a Gordon Middleton, ac i Catrin ac Eleri. Bu farw Mam Gordon yn ddiweddar wedi gwaeledd blin. Daeth Mrs Winnie Middleton i lawr o'r Alban i ymgartrefu gyda Helen a Gordon sawl blwyddyn yn ôl a daeth yn rhan o fywyd cymdeithasol y pentref ac yn aelod selog o'r capel yn Efail Isa. Yn meddwl amdanoch.

Merched y Wawr
Daeth cynulleidfa dda ynghyd i wrando ar Eurwen Richards yn traddodi'n wybodus iawn am gaws yn ein cyfarfod y mis hwn. Mae Eurwen wedi bod yn ymwneud â bwydydd ar hyd ei hoes yn rhinwedd ei swydd ac oherwydd ei bod yn feirniad rhyng-wladol cawsie! Yn ddiweddar cyhoeddodd gyfrol o'r enw 'Caws Cymru' sy'n olrhain hanes caws, yn nodi sut y gwneir caws, yn sôn am nodweddion y gwahanol gawsie – ac fe gawsom ninnau gyfle i brofi nifer o'r gwahanol fathau o gaws ar y noson, tra'n mwynhau gwydraid o win i'w olchi lawr. Noson ddifyr arall! Dewch, ymunwch â ni – bydd y cyfarfod nesa yn Neuadd y Pentre, Pentyrch nos Fercher, Tachwedd y 12fed pan fydd Lyn West a Siân Pickard yn siarad am syndrom Downs.

Priodas haf
Llongyfarchiadau i Zoe Coombes, Pantglas, Pentyrch ac Andrew Western o Riwbeina briododd ddechrau'r haf yn Eglwys St. Catwg, Pentyrch ar ddiwrnod hynod o braf! Amy, chwaer Zoe oedd un o'r morynion priodas ynghyd á Laura Mathias ei chyfnither ac Emma Jenkins, ffrind ysgol o ddyddiau Llanhari. Anastasia ac Alexandra Stockton oedd y morynion bach. Cafwyd datganiadau hyfryd yn ystod y gwasanaeth gan Kathryn Rees ar y delyn a Simon Carter ar y ffidil. A thra roedd y pár priodasol yn llofnodi'r gofrestr bu Amy yn canu. Cynhaliwyd y wledd briodas yng Ngwesty'r Vale. Aeth Zoe ac Andrew ar eu mis-mél i Los Angeles a Hawaii, a bellach maent wedi ymgartrefu ym Maes -y -Sarn. Pob hapusrwydd i chi eich dau.

Amy Coombes
Llongyfarchiadau Amy ar ennill dy dystysgrif ól-radd mewn Astudiaethau Theatr Cerdd o Academi Mountfield, Llundain. Derbyniodd Amy ei diploma yn Eglwys St. Paul, Covent Garden, Llundain ar Fedi'r 19eg – ac fe'i cyflwynwyd iddi gan yr actores Amanda Holden. Bu Amy'n ddigon ffodus i gychwyn ar ei gwaith yn y byd proffesiynol yn syth bin – yn chwarae rhan yr Wniadwraig (y Seamstress) mewn cyflwyniad cerddorol o'r *Tale of Two Cities* gan Dickens. Bydd y sioe yn rhedeg am chwe wythnos yn Theatr y Gate, Highgate o dan gyfarwyddyd Paul Nicholas. Daw 'nól i Gymru dros y Nadolig i chwarae rhan Eira Wen (Snow White) ym mhanto Nadolig Cwmni Theatr Owen Money, fydd yn dechrau teithio theatrau de Cymru ar Dachwedd y 18fed hyd at Chwefror yr 22ain. Ceisiwch ddal cip o Amy naill ai yn Aberdár, y Coed-duon neu Theatr y Parc a'r Dár, Treorci. Pob lwc ar y daith!



Andrew Western a Zoe Coombes

Elusen alcohol a chyffuriau blaenllaw yn apwyntio Prif Weithredwr newydd

Mae Wynford Ellis Owen wedi ei apwyntio'n Brif Weithredwr Cyngor Cymru ar Alcohol a Chyffuriau Eraill. Yn dilyn gyrfa lwyddiannus fel actor, ysgrifennwr a chyfarwyddwr, mae Wynford, sy'n gynghorwr cymwysedig Fdap (Ffederasiwn Gweithwyr Proffesiynol Cyffuriau ac Alcohol), yn dechrau ei swydd mewn cyfnod ble mae materion sy'n ymwneud â dibyniaeth ar sylweddau i'w gweld yn fwy cyffredin o fewn y gymdeithas yng Nghymru a'r agenda newyddion yn gyffredinol.

Yn wreiddiol o Lansannan yn Sir Ddinbych ond bellach yn byw yng Nghreigiau, Caerdydd, mae Wynford, wedi bod yn gaeth i alcohol ei hun yn ystod ei fywyd ond, yn dilyn triniaeth arloesol yn Rhoserchan, Aberystwyth, mae e wedi dysgu troi ei brofiadau chwerw i'w fantais ei hun. Yn wir, hyn sy'n gorwedd wrth wraidd ei awydd angerddol i wneud gwahaniaeth yn ei rôl newydd gyda'r elusen hon yng Nghaerdydd.

Dywedodd Wynford Ellis Owen, "Mae caethineb i gyffuriau yn salwch sy'n gwanychu nifer fawr o bobl yn y gymuned yng Nghymru heddiw. Mae'r pwysau arnom ni gyd yn ymddangos fel petai nhw yn cynyddu bob dydd ac mae dibyniaeth ar bob math o sylweddau caethiwus o alcohol i gyffuriau (ar bresgripsiwn neu'n anghyfreithlon) yn anffodus yn adlewyrchiad cyffredin o realiti yn ein trefi a phentrefi. Rwy'n teimlo bod fy ngyrfa a'm profiadau hyd yn hyn wedi fy mharatoi ar gyfer y swydd. Mae gen i'r anghenion personol i gyd ac rwy'n edrych ymlaen at y sialensau sydd i ddod.

"Mae nifer o fentrau cyffrous newydd ar y gweill, mentrau sy'n caniatáu'r Cyngor i fod yn fwy cynhwysol, sy'n galluogi'r Cyngor i ledaenu'i neges bwysig i gynulleidfaoedd newydd yn ogystal â'i phrif gynulleidfa darged. Fel cynghorwr cymwysedig i rai sy'n gaeth i alcohol a chyffuriau eraill, fe fydda i hefyd yn cynnig Cyngor cyfrinachol, un-i-un am ddim i ddioddefwyr.

"Rwyf hefyd ar gael i ddod i siarad am waith y Cyngor i eglwysi a chapeli, ysgolion a grwpiau ieuenctid led led Cymru."

Dywedodd Cadeirydd Cyngor Cymru ar Alcohol a Chyffuriau Eraill, Denzil John, "Rydym ni'n edrych ymlaen at gyfnod cyffrous o dan arweiniad ein cyfarwyddwr newydd. Credwn y bydd yn cyflwyno syniadau ffres a gweledigaeth berthnasol yng nghydestun camddefnydd o alcohol a chyffuriau yn y Gymru gyfoes."

Y RHOSYN

Sut daethost i fod, rosyn mor hardd;
Anisgrifiadwy wyrth yn yr ardd?
Cymhlethdod anfeidrol, blodau hael
A fegir yng ngwyrddni aml ddail.

O, mor osgeiddig yng nghanol perth,
Y gosgorddlu eraill a'i holl nerth
Yn talu teyrnged heb wneud 'r'un swn
Tra'n edmygu swyn rhosyn y cwn.

Y ti a fydd yn helpu dathlu,
Dy liwiau llachar yno'n dallu,
Pan fydd 'na briodas, geni, bedydd,
Pen-blwydd a phob achlysur dedwydd.

Ond hefyd pan ddaw tristach cyfnod,
Cei chwarae rhan fel cysur adnod –
I leddfu poen a galar creulon;
Troi'r anhapusrwydd yn atgofion.

Dy bersawr per sy'n foddion bythol
Pan fydd teimladau dwys yn llethol.
Daw hwn a'r ysbryd a rydd y gwrid
I wynebu aml rwystrau'r byd.

Amryfal amryddawn dy ddoniau,
Ffynhonnell o flodau yn donnau;
Golch i ffwrdd pob tristwch a thrallod
Ac yna hapusrwydd cawn ganfod.

Dy gymhleth amrywiaeth ddaeth i'w le
O dan oruchwyliaeth *DNA*;
Ond y cwestiwn wedyn, beth yw byw?
Rhaid nawr cydnabod dylanwad Duw.

O rosyn sydd yn annatod rhan
O'r hyn a wnaeth ddeillio
o'r '*big bang*';
Dy fodolaeth rydd yr eglurhad
Fod pob enaid byw yn rhan o'r Tad.

Heddwyn Richards

Y CYMRY AC AMERICA LADIN

Cynhelir Wythfed Gynhadledd Flynyddol Canolfan Uwchefrydiadau Cymry America ddydd Sadwrn, 29 Tachwedd 2008, rhwng 10.15am a 4.00 pm.

Yn Ystafell 0.31, Adeilad y Dyniaethau, Safle Rhodfa Colum, Prifysgol Caerdydd. Manylion pellach: Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd (029-2087-4843) www.caerdydd.ac.uk/cymraeg/

Llwyddiant Clwb Criced Creigiau

Mae'r ddwy flynedd ddiwethaf wedi bod yn flynyddoedd cyffrous iawn yn hanes y Clwb. Nid yn unig bod y Clwb wedi dathlu ei ben blwydd yn 21 oed, ond hefyd mae wedi ei ddyrchafu o Gynghrair y Conference i Gynghrair De Cymru (rhywbeth na allai Dave Price, un o sylfaenwyr y Clwb, fyth freuddwydio amdano!!)

I ddathlu eu llwyddiant eleni cynhaliwyd cinio gwobrwyo yng Nghlwb Golff Creigiau i gydnabod y chwaraewyr a swyddogion y Clwb.

Mae'r Clwb yn llwyddo i redeg tri thîm hŷn sydd yn gymysgedd o oedolion a disgyblion ysgolion uwchradd Creigiau a'r cyffiniau. Oherwydd natur a naws y Clwb mae yna ddigonedd o gyfleoedd i ieuenctid yr ardal gael chwarae yn y timoedd hyn a hyd yn oed cyfleoedd i'r tadau a'r meibion gyd-chwarae. Yn wir, dyma a ddigwyddodd i ddau o aelodau'r tîm cyntaf, pan wnaeth Tom Innes a Ben Thomas wneud eu "début" gyda Wyn a Geraint yr Haf yma. Roedd cael Tom yn chwarae efo'i dad am y tro cyntaf hyd yn oed yn fwy sbesial gan fod Wyn ar y diwrnod hwnnw yn chwarae ei 100fed gem i'r Clwb!

Gwobrwywyd amryw o aelodau'r Clwb yn y cinio, ond fel y pwysleisiwyd mae llwyddiant yr unigolion ond wedi bod yn bosib oherwydd cyfraniad eu cyd-chwaraewyr.

Gwobrau'r Tîm Cyntaf:
Chwaraewr y Flwyddyn: Martin Powell
Batiwr y Flwyddyn: Dewi Williams
Bowliwr y Flwyddyn: Wyn Innes
Gwobrau'r Ail Dîm:
Chwaraewr y Flwyddyn: Owain Jones
Batiwr y Flwyddyn: Phil Barttle
Bowliwr y Flwyddyn; Dafydd Taylor
Gwobrau'r Trydydd Tîm:
Chwaraewr y Flwyddyn: Arthur Cook
Batiwr y flwyddyn: Andrew Morgan
Bowliwr y Flwyddyn: Dafydd Griffiths

Yn ychwanegol gwobrwywyd Alex Moore gan Gapten y trydydd tîm am ei gyfraniad gwerthfawr i'r tîm, tra bod gwobr Personoliaeth y Clwb wedi mynd i Tom Lloyd (capten y tîm cyntaf) oherwydd ei waith caled yn ymgymryd â phob math o ddyletswyddau ar y cae ac oddi arno.

Gorffennwyd y noson efo adloniant gan fand Wyn Innes, 'Y Creigiau Chiefs'. Diweddglo da i noson arall lwyddiannus. Cadwch ati bois a phob lwc y flwyddyn nesaf.

MENTER IAITH
Rhondda Cynon Taf

Yn hybu'r Gymraeg

01443 226386

www.menteriaith.org

Cyfarfod Blynyddol
Cynhelir cyfarfod blynyddol y Fenter yng **Ngholeg Morgannwg Llwynypia** (Ystafell Gyfarfod yn yr adran gyfryngau newydd) **Nos Iau, Tachwedd 13eg 2008**.

Wedi'r cyfarfod cyhoeddus dangosir y bedair ffilm fer a gynhyrchwyd gan Ieuenctyd y Sir dan oruwchwiliad CIC - dewch â'ch popcorn felly.

Sioe
Sioe hypnoteiddio, gyda Wyn Roberts. Dewch yn llu i weld sioe unigryw o adloniadol. Pris mynediad £6.00
Canolfan Dysgu Gydol Oes, Gartholwg.
8.00 Dydd Gwener 14/11/2008
Tocynnau: 01443 226386.

Casino
Cafwyd noson lwyddiannus yng Nghlwb y Bont, Pontypridd nos Wener Hydref 17eg pan ddaeth Las Vegas i Bontypridd. Noson casino cyntaf y Fenter a wnaeth neb colli crys ond daeth ambell un yn agos!! Roedd enillwyr mawr ag ambell i gollwr sâl ond gwnaeth bawb fwynhau a gadael yn ffrindiau ar ddiwedd y noson.....rwy'n credu !!??

Ysgol Gymraeg Castellau

Llangrannog
Aeth 22 o blant Blwyddyn 5 a 6 gyda 6 aelod o staff yr ysgol i Langrannog am benwythnos ar ddechrau Mis Hydref. Cafwyd yr hwyl arferol yno a phawb wedi blino'n lan ar brynhawn Dydd Sul wrth ddychwelyd yn ôl i'r ysgol.

Trawsgwlad yr Urdd.
Bu Mis Hydref yn amser prysur iawn i redwyr chwim yr ysgol wrth iddynt gystadlu yng nghystadleuaeth Trawsgwlad yr Urdd ar gaeau'r Ddraenen Wen ym Mhontypridd.

Ymweliadau.
Aeth plant dosbarthiadau Blwyddyn 1,2 a 4 ar ymweliad a'r Amgueddfa ym Mhontypridd. Yno yn ogystal ag arteffactau bendigedig yr Amgueddfa trefnwyd 5 gweithdy er mwyn i'r plant cael profiad uniongyrchol o ddefnyddio hen offer. Diolch i'r rhieni'r dosbarthiadau am ymuno gyda'r dosbarthiadau ar yr ymweliadau.

Diolchgarwch.
Ar Ddydd Gwener olaf yr hanner tymor cynhaliwyd ein gwasanaeth diolchgarwch eleni. Plant Blwyddyn 1 oedd yn llywio'r gwasanaeth a chyflwynwyd siec gwerth £350 i gynrychiolydd o Tŷ Hafan ein helusen diolchgarwch. Yn gynharach yn y tymor gwisgodd disgyblion yr ysgol mewn dillad llachar am ddiwrnod er mwyn codi arian a chyrraedd y cyfanswm uchod. Da iawn chi, blant a rhieni Castellau a diolch yn fawr.

Ymweliad cwmni Theatr 'Spectacl'.
Daeth y cwmni theatr uchod i'r ysgol i berfformio sioe, 'Boy' yn ystod Mis Hydref. Roedd cynnwys y sioe yn ymwneud a datblygiad addysg Bersonol a Chymdeithasol plant hyn yr ysgol.

Y timau pêl-droed

Pêl-droed.
Aeth dau dîm pêl-droed yr ysgol draw i chwarae yn erbyn Ysgol Gartholwg ar ddiwedd yr hanner tymor. Colli bu hanes tîm y merched 4 gôl i 3 ond enillodd tîm y bechgyn 6 gôl i 3. Da iawn chi!

Pwyllgorau Eco a'r Cyngor Ysgol.
Etholwyd disgyblion yr ysgol ar gyfer y pwyllgor Eco ysgolion a'r Cyngor Ysgol ac maent yn barod wrthi'n ddiwyd yn cynnal cyfarfodydd ac yn meddwl am ffyrdd o wella amgylchedd yr ysgol er lles y disgyblion.

Cornel y Plant

Lliwiwch y llun

Chwilair Tân Gwyllt

c	b	s	i	u	a	m	a	l	ff
o	t	u	G	e	i	ff	ch	ll	
e	a	s	c	d	b	a	t	i	th
l	n	ch	ê	w	dd	ll	j	w	e
c	i	c	g	r	y	o	o	i	o
e	o	s	ng	w	u	s	i	a	p
r	d	o	g	a	n	g	o	u	n
th	y	n	l	m	e	i	t		ŵ
s	â	o	p	u	m	e	d	â	c
t	g	w	r	e	i	ch	i	o	n

pumed sêr joio tanio
coelcerth tân Guto
ffiamau gwreichion nos
tân gwyllt llosgi roceді
cŵn poeth golau llwiau

Meddyliwch am bennawd i'r llun.



CROESAIR

Dyma gyfle arall i chi ennill Tocyn Llyfrau

Enillydd Croesair Mis Medi: Siân Webb, Pontyclun.



Atebion i: Croesair Col
34, Pen Bryn Hendy, Yr Encil, Meisgyn, Pontyclun. CF72 8QX
erbyn 20 Tachwedd 2008

Ar Draws
1 + 6 Dihareb sy'n dangos bod gan bob unigolyn sgiliau a diddordebau personol (4,2,1,3,1,2)
4. Arddodiad (2)
6. Gweler 1
7. Ennaint (5)
10. Ystafell fach mewn carchar (3)
12. Lle i fyw (7)
13. Darn o dir glas wrth y tŷ (5)
14. Afonydd bychain (6)
16. Bloedd, gwaedd (6)
19. Dodi olew (5)
21. Fe wnaeth lamu (7)
23. Heb afiechyd (3)
24. Twrf (5)
25. Llawen (3)
27. Y sŵn wrth igian (2)
28. Craidd (10)

I Lawr
1. Mebyd (10)
2. Yn awr (7)
3. Tynnu'n ôl (7)
4. Yn fab i (2)
5. Peth sydd dros dop adeilad (2)
6. Gweler 9.
8. Offeryn (3)
9 a 6. Blodyn bach melyn (4,1,3)
11. Eiddo y trosglwyddir i blant gan eu rhieni (10)
15. Ystafell i ymdrochi ynddi (7)
17. Lle mae lleianod yn byw (7)
18. Cwlwm (4)
20. Llinyn (4)
22. Aderyn benyw (3)
25. Llanw (2)
26. Offeryn amaethyddol (2)

Atebion Medi

P		H		D	A	R	G	A	N	F	O	D
E	D	A	U		C		W		O		L	
R		N			T	R	E	I	DD	G	A	R
LL	E	I	L	A	I		G		I		F	
E		A			O		I			C		D
N	O	E	TH	I		B	A	R	G	O	D	I
N		TH			LL	A	N			R		N
A	D	O	L	W	Y	N		B	U	DD	A	I
U		L			TH		B			I		S
	C		C		Y		R	Y	S	A	I	T
C	A	D	E	I	R	I	O			D		R
	E		L		F		G		C	A	D	I
C	R	A	F	I	A	D	A	U		U		O

Ysgol Gynradd Gymunedol Gymraeg Llantrisant

Croeso!
Croeso mawr i'n disgyblion newydd. Mae 53 o blant bach Meithrin wedi dechrau yn yr ysgol yn Nosbarthiadau 1, 2 a 3. Braf gweld yr ysgol ar dwf! Croeso hefyd i'n hathrawes newydd Miss Emma Russell. Mae Miss Russell yn gyn-ddisgybl ac mae hi'n rhannu swydd gyda Miss Eiry Pugh. Plant Dosbarth 2 sydd o dan eu gofal. Mae cymorth athrawon newydd gyda ni ers mis Medi sef, Miss Lauren Snell (Dosbarth 1), Miss Amy Davies (Dosbarth 2) a Miss Bethan Williams (Dosbarth 3).

Ymweliad David Roberts
Ddydd Mawrth fe fu cyffro mawr yn yr ysgol gan fod arwr lleol David Roberts yn ymweld i siarad â'r plant am ei lwyddiant yn y Gemau Paralympiaidd a gynhaliwyd eleni. Roedd y plant yn falch iawn i weld bod ei fedalau gyda fe! Fe dreuiliodd David fore cyfan yn mynd i bob dosbarth i siarad â'r plant am ei yrfa fel nofiwr o fri.

Ganwyd ym Meddau ym 1974 ac fe ddechreuodd e nofio pan oedd yn 18 mis oed! Llwyddodd i ennill pob bathodyn ASA ac enillodd ei fedal aur cyntaf yn 9 oed. Mae ganddo gyfanswm o 11 medal aur o'r gemau paralympiaidd, 12 aur pencampwriaeth ac 14 aur Ewropiaidd.

Ddydd Iau 16 Hydref fe fu David ar daith arbennig trwy Llundain gyda'r timau o athletwyr Olympiaidd a Pharalympiaidd. Daeth miloedd o bobl allan ar y strydoedd i'w croesawu a chydnabod eu cyfraniad a'u llwyddiant. Mae David yn fab i Mrs Carol Roberts sydd yn gweithio fel aelod o staff cynorthwyol yr ysgol.

Helfa Drysor
Llongyfarchiadau i deulu Ioan a Gruff Davies ar ennill yr Helfa Drysor a drefnwyd gan y GRhA brynhawn Sul 12/10/08. Diolch yn fawr i bawb oedd yno i'n cefnogi a'n helpu i wneud yr achlysur yn llwyddiannus.

Digwyddiadau'r GRhA
Disgo Calan Gaeaf 23/10/08 yn Neuadd yr ysgol. Noson Rasys 28/11/08 'Workingmen's Club' Llantrisant.

EFAIL ISAF

Gohebydd Lleol:
Loreen Williams

Priodas
Llongyfarchiadau i Bethan, merch Dave a Rhian Eyres, Heol Iscoed a Tim Corry ar achlysur eu priodas yng Nghapel y Tabernacl ddydd Sul, Medi 28ain. Roedd Bethan yn edrych yn hyfryd mewn gwisg laes o liw ifori, a'i gwên mor ddisglair â'r haul a dywynnodd ar y pâr ifanc drwy'r prynhawn. Brett Goudie oedd y gwas priodas a'r morynion oedd Menna Davies a Siân Davies a Megan Phillips oedd y forwyn fach. Gareth Eyres a Jon Phillips oedd y tywyswyr.

Roedd y gwasanaeth priodasol o dan ofal y Parchedig Eirian Rees. Y delynores oedd Ruth James a Carey Williams oedd wrth yr organ. Cafwyd darlleniadau yn ystod y gwasanaeth gan Catrin Rees ac Elizabeth Odell. Cynhaliwyd y wledd briodas yn Canada Lodge, Creigiau. Mae Tim yn aelod o'r Awyrlu a Bethan yn astudio am radd uwch mewn Seicoleg Addysg ym Mhrifysgol Southampton. Dymunwn yn dda i'r pâr ifanc.

Gwellhad Buan
Dymunwn wellhad buan i Pat Edmunds, Penywaun sydd wedi treulio rhai dyddiau yn yr ysbyty yn ystod mis Hydref.

Yr Arddangosfa Arlunio
Ddiwedd mis Medi cynhaliwyd yr Arddangosfa Arlunio flynyddol yn Neuadd y pentref. Arddangoswyd gwaith gan dri deg wyth o artistiaid lleol. Agorwyd yr arddangosfa gan y Cynghorydd David Stone a ganmolodd safon uchel y gwaith. Fe wnaeth disgyblion Ysgol Gynradd Llanilltud Faerdref ddenu llawer o ganmoliaeth gyda'u gwaith lliwgar a chrefftus.

Y Corau'n Cystadlu
Bu Parti'r Efail a Chôr Merched y Garth yn cystadlu yn yr un gystadleuaeth yn Eisteddfod y Cymoedd yn Ystrad Mynach Nos Wener, Hydref 17eg. Côr Cwm Ni o Ystrad Mynach oedd yn fuddugol, gyda Parti'r Efail yn ail a Chôr Merched y Garth yn drydydd. Roedd awyrgylch hamddenol y noson yn ein hatgoffa o 'Steddfodau bach y wlad ac roedd yn braf cael cefnogi'r brwdfrydedd sydd yng Nghwm Rhymni.

Dweud Ffarwel wrth Llinos
Ar ôl cyfnod o ryw ddegawd yn arwain Côr Merched y Garth mae Llinos Swain wedi penderfynu cymryd hoe fach. Mae'r merched i gyd am ddiolch o galon iti Llinos am dy ymroddiad yn ystod y cyfnod yma. Rydym wedi cael hwyl ryfeddol o dan dy arweiniad. Buom yn cystadlu a chynnal cyngherddau ledled Cymru a thramor yn ystod dy deyrnasiad. Diolch o galon, Llinos. Braf yw deall dy fod am ddod yn ôl i rengoedd y sopranos i ganu nawr.

Byddwn yn newid ein noson ymarfer i Nos Lun o hyn ymlaen. Manteisiwn ar y cyfle hwn i groesawu aelodau newydd i ymuno â'r Côr.

Y TABERNACL
Gwasanaeth y Plant
Ddydd Sul, Hydref 5ed cafodd y plant wledd yng nghwmni Martyn Geraint. Roedd tyrfa fawr o blant a'u rhieni'n bresennol a phawb wrth eu boddau gyda brwdfrydedd heintus Martyn.

Y Sul canlynol cynhaliwyd y Cyfarfod Diolchgarwch. Rhiannon Humphreys oedd llywydd yr oedfa a'r Parchedig Aled Edwards fu'n annerch y plant. Cafwyd eitemau cerddorol gan blant yr Ysgol Sul ac fe fu Band y Tabernacl o dan arweiniad Bethan Roberts yn cyfeilio. Derbyniwyd rhoddion o fwydydd tun ar gyfer creu hamperi Nadolig yn ystod yr oedfa.

Merched y Tabernacl
Taith nesaf y merched fydd ymweliad â Ffair Nadolig ger Chippenham. Mae elw'r ffair yn cael ei gyflwyno i Water Aid. Bydd rhyw gant a hanner o stondinau yno a fydd yn cynnwys anrhegion Nadolig anarferol, bwydydd, dillad, henebion, teganau, gemwaith a llawer mwy. Bydd y bws yn cychwyn am 9 o'r gloch y bore a gadael am adre am 4 o'r gloch y prynhawn. Rhowch wybod i Ros, Judith neu Helen os ydych am ymuno.

Cinio Nadolig yn y Llew Coch ym Mhendeulwyn fydd cyfarfod mis Rhagfyr ar ddydd Mawrth y nawfed.

Dringo'r Tri Phegwn
Bu ail benwythnos mis Hydref yn un prysur iawn i aelodau Teulu Twm. Ar y Sadwrn fe fuon nhw'n herio'r Bannau trwy ddringo Pen y Fal a Phen y Fan ac yna i gwblhau'r tri phegwn fe ymunodd amryw o'r rhieni ac aelodau'r eglwys i gerdded i ben Mynydd y Garth. Llongyfarchiadau gwresog i bawb. Cyflwynir elw'r penwythnos i brosiectau Teulu Twm am eleni sef Water Aid ac Ysgol i Blant y Domen Sbwriel yn Nicaragua.

Priodas
Llongyfarchiadau i Gareth Williams, Pontyclun, ac Elin Llywelyn, Pontypridd, ar eu priodas yng Nghapel y Tabernacl ddydd Sadwrn Hydref 25ain. Roedd y gwasanaeth priodasol o dan ofal y Parchedig Eirian Rees a Carey Williams oedd wrth yr organ.

Yn ystod y gwasanaeth cafwyd darlleniad gan Osian Llywelyn a Cherdd gan Mari George. Hefyd roedd Côr Godre'r Garth a Chôr y Cwm yn canu. Elin yw hyfforddwraig Côr y Cwm, côr plant y Rhondda.

Dymunwn bob hapusrwydd i chi eich dau.

Trefn yr Oedfaon
Tachwedd 2il Gwasanaeth Cymun dan ofal ein Gweinidog
Tachwedd 9fed Y Parchedig Aled Edwards
Tachwedd 16eg Oedfa deuluol
Tachwedd 23ain Dafydd Iwan
Tachwedd 30ain Y Parchedig Owain Llŷr Evans.

Cylch Meithrin Efail Isaf

Mae gan y Cylch Meithrin amseroedd newydd.
Dydd Mawrth – 9.30 – 1.00pm
Dydd Mercher – 9.30 – 1.00pm
Dydd Iau - 9.30 – 12.30pm.
Cylch Ti a Fi – 12.45pm – 3.00pm
Dydd Gwener - 9.30 – 1.00pm

Mae Diwrnod / Noson Codi arian i'r Cylch Meithrin ddydd Sadwrn 6ed o Ragfyr. Fe fydd stondinau yn ystod y dydd yn neuadd y pentref, Efail Isaf ac yna Twmpath a chantorion yn y nos. Llawer mwy o fanylion i ddilyn.

Côr y Bont

7.30 Bob nos Lun
yng Nghlwb y Bont,
Pontypridd
Noson croesawu aelodau newydd
Dydd Llun cyntaf bob mis
Ffoniwch Del Caffrey
01443 493184

Priodasau Efail Isaf

Bethan Eyres a Tim Corry

Dawnswyr Nantgarw yn croesawu Elin a Gareth

Mae Dosbarth 1 wedi bod wrthi'n brysur yn garddio. Mae pawb wedi palu darn o dir er mwyn i bob grŵp allu plannu gwahanol fathau o blanhigion.

Llongyfarchiadau i Betsan Tudur, Hana Macdonald, George Shewring, Lowri Impey a Gwen Roberts o Ddosbarth 2 a 3 am gael eu lluniau wedi eu cyhoeddi yng nghylchgrawn WCW y mis yma.

Dosbarth 4 gymerodd Gwasanaeth Diolchgarwch yr ysgol eleni. Diolch iddynt am wasanaeth bendigedig a diolch hefyd i holl blant yr ysgol am gyfrannu a dangos eu diolchgarwch hwy drwy ddod â bwydydd ac arian i mewn. Aeth y bwydydd i ganolfan Wallich Clifford sy'n edrych ar ôl y digartref, ac aeth yr arian tuag at elusen Tenovus sef ein helusen arbennig ni eleni.

Safio dŵr, safio trydan a safio arian yw 'moto' y Pwyllgor Eco. Cawsant eu cyfarfod cyntaf ar y 14eg o Hydref. Bu trafodaeth am ddefnyddio y botwm Eco o fewn yr ysgol, a chynlluniau i ail beintio biniau ailgylchu'r ysgol.

Ar y 7fed o Hydref, aeth Tom, Rhys Lewis, Gwen, Sam, Jessica a Megan i gael te gydag Arglwydd Faer Caerdydd. Fe gawsant amser da yn cael gwledd o gacennau a brechdanau ac roedd yn brofiad gwerthfawr.

Braf gweld Christopher Paddiston nôl yn yr ysgol ar ôl treulio noson yn yr ysbyty a braf hefyd gallu llongyfarch Mrs. Hussey ar enedigaeth ei mab Mathew ar yr unfed ar bymtheg o Hydref.

Ddydd Mercher, y 1af o Hydref, fe aeth Dosbarthiadau 5 a 6 i Lancaiach Fawr. Yno, fe aethant ar daith o gwmpas y Maenordy cyn creu bagiau o berlysiau fyddai'n cael eu defnyddio yng nghyfnod y Stiwartiaid i gael gwared o afiechydon. Fe ddysgon nhw lawer iawn.

Plantos bach blinedig Ysgol Creigiau ar eu ffordd nôl o Langrannog.

Disgyblion yr ysgol yng nghwmni yr Arglwydd Faer

Aeth Dosbarthiadau 5 a 6 am benwythnos i Langrannog hefyd! Yno buont yn gwneud llawer o weithgareddau difyr e.e sgïo, gwibgartio, nofio, marchogaeth, trampolînio a saethyddiaeth. Un rheol bwysig yn Llangrannog yw CAEL HWYL A SBRI ……. doedd hynny ddim yn anodd!! Diolch o GALON i Mrs Evans, Mrs Tewkesbury, Miss Roberts, Miss Davies a Mrs Stone am fod mor ddewr a dod gyda ni a diolch i Mrs Jones am wneud cymaint o'r trefniadau.

Ysgol y Dolau

Gymnasteg
Llongyfarchiadau i dîm Gymnasteg yr ysgol aeth i gystadlu ym mhencampwriaeth yr Urdd. Roedd y gystadleuaeth o safon uchel iawn a wnaeth y merched yn y grŵp yn rhagorol i ddod yn drydydd. Daeth y triawd yn ail yn eu cystadleuaeth nhw. Llwyddiant mawr, da iawn chi.

Cyngor Ysgol
Llongyfarchiadau i aelodau newydd y Cyngor Ysgol. Maent yn barod wrthi'n gweithion galed i wella'r ysgol. Dyma'r aelodau newydd ;
Rhoslyn Brynn (Cadeirydd), Nia Paul (Is-Gadeirydd), Toby Daniell (Ysgrifenyddes), Gina Windsor (Trysorydd), Josh Chard (Trysorydd), Dylan Thomas (Swyddog y Wasg), Corey Dyer (Swyddog y Wasg), Rachel Wolfe (Cynghorwr), Amy Peters (Cynghorwr), Niamh Cooper (Cynghorwr) Saskia Minty (Cynghorwr) Robyn Williams (Cynghorwr)

Trawsgwlad
Aeth blynyddoedd 4, 5 a 6 i gystadlu yng nghystadleuaeth trawsgwlad yr Urdd yn Hawthorn ar Hydref 9fed. Cawsom amser llwyddiannus iawn gyda nifer fwyaf o'm chwaraewyr yn dod o fewn y pedwar deg rhedwr cyntaf. Daeth bechgyn blwyddyn 4 gyntaf a'r merched blwyddyn 6 yn drydydd. Daeth Lewis Roberts yn gyntaf allan o fechgyn blwyddyn 4 i gyd. Da iawn i bawb a rhedodd - roedd yr ysgol yn falch iawn ohonoch.

Pêl rwyd
Ar y 7fed o Hydref aeth y tîm Pêl rwyd i ysgol Pontyclun ar gyfer gem 1af y flwyddyn. Roedd pawb yn gyffrous ac yn awyddus i chwarae. Trwy gydol y gêm welon ni llawer o chwarae da, yn enwedig wrth i'r chwaraewyr amddiffyn ennill y bel yn ôl ar nifer o
adegau. 13-4 i Dolau oedd y sgôr terfynol. Da iawn
merched, dechreuad gwych! Daliwch ati!!!

Gwasanaeth Cynhaeaf
Cawsom wasanaethau arbennig yn yr ysgol i ddathlu'r Cynhaeaf. Canodd pawb yn hyfryd a chymerodd sawl un rhan i gyfleu ystyr y Cynhaeaf i'r ysgol. Ein helusen ni eleni yw'r Bocsys Esgidiau Nadolig.

Ysgolion Eco
Llongyfarchiadau i'r ysgol, staff a disgyblion am ennill yr ail Faner Werdd. Roedd yr aseswyr yn falch iawn gyda'r gwaith o fewn yr ysgol ac yn enwedig gydag aelodau'r Cyngor Ysgol a wnaeth siarad gyda nhw. Llwyddiant arbennig iawn!

menter caerdydd

www.mentercaerdydd.org
029 20 56 56 58

CaerDydd a Nos
24 awr mewn prifddinas

Noson o gerddoriaeth a barddoniaeth yng nghwmni
Heather Jones,
Catrin Dafydd, Gwyneth Glyn, Rhys Iorwerth, ac Owain Rhys.

Nos Iau, Tachwedd 6
Tafarn Tair Pluen (Owain Glyndwr)
Tocynnau £6 ar gael o swyddfa'r Fenter.

Mae'r noson yn rhan o ddathliadau Menter Caerdydd yn 10 oed.

Cymdeithas Brodwaith Cymru

Mae Cymdeithas Brodwaith Cymru yn cynnig Ysgoloriaeth hyd at £300 i **fyfyriwr Cymraeg sy'n dilyn cwrs tecstilau mewn coleg.** Dyma'r trydydd tro i'r Gymdeithas gynnig yr ysgoloriaeth yma.
Amcanion ein Cymdeithas yw hyrwyddo brodwaith drwy gyfrwng y Gymraeg, a threfnir cyrsiau, darlithoedd, dosbarthiadau ac arddangosfeydd mewn ardaloedd ledled Cymru. Diffinnir Brodwaith fel unrhyw waith sydd yn addurno trwy edau a nodwydd, a cheir amrywiaeth o dechnegau ar gyfer hyn. Mae gennym arddangosfa o waith yr aelodau yn yr Eisteddfod Genedlaethol bob blwyddyn.
I wneud cais am yr ysgoloriaeth, mae angen cyfeiriad a manylion y cwrs ynghyd a lluniau o enghreifftiau o'ch gwaith at:
Medwen Charles, Maes Meini, Rhyduchaf, Y Bala, LL23 7SD.
maes.meini@lineone.net
Y dyddiad cau yw Ionawr 9fed 2009.

Gig Ieuenctid 14+
Just Like Frank, Nos Sadwrn Bach, Byd Dydd Sul a'r The Lay-lows
Nos Wener, Tachwedd 7
Clwb Ifor Bach
Drysau'n agor am 7.30pm
Tocynnau ar gael o'r Fenter, Ysgol Glantaf a Phlasmawr

Diwrnod Teulu
Cymru v De'r Affrig
1.30pm, Dydd Sadwrn, Tachwedd 8
Taff Suite
Canolfan Chwaraeon Gerddi Soffia
£3 i bawb.
Tocynnau o swyddfa'r Fenter.
Mae'r diwrnod yn rhan o ddathliadau Menter Caerdydd yn 10 oed.

CYLCH MEITHRIN EFAIL ISAF
Bob bore
Mawrth, Mercher, a Gwener
9.30 - 1.00
Bore Iau 9.30 - 12.30pm
TI A FI EFAIL ISAF
Dydd Iau 12.45pm - 3.00pm
Yn Neuadd y Pentref, Efail Isaf
Manylion: 01443 208806

TI A FI BEDDAU
Bob bore Mercher 10.00 - 11.30a.m.
yn Festri Capel Castellau, Beddau

TI A FI TONTEG
Bob dydd Mawrth 10 - 11.30
yn Festri Capel Salem, Tonteg

TI A FI CREIGIAU
Prynhawn Gwener 1.15 - 2.45
Neuadd y Sgowtiaid
Y Terrace, Creigiau
Manylion: 07866 087042

TI A FI PENTRE'R EGLWYS
1.15-2.45p.m. Neuadd Y Plwyf
Bob dydd Iau

CYLCH MEITHRIN CILFYNYDD
Bore Llun, Mercher a Iau
9.30-11.30
TI A FI CILFYNYDD
Dydd Gwener 9.30-11.30
Neuadd Y Gymuned,
Stryd Howell,Cilfynydd.
Manylion: Ann 07811 791597

CYLCH MEITHRIN BRYNNA
Dydd Llun - Gwener 9.30 - 12.30
01443 229723

CYLCH MEITHRIN PONTYCLUN
Dydd Llun - Gwener 9 - 12
07912 101506
Ti a Fi Pontyclun
Prynhawn Llun 1.15 - 2.45
01443 225644

CYLCH MEITHRIN THOMASTOWN
Dydd Llun - Iau 9.15 - 11.45
Ti a Fi bore Gwener 9.30 - 11.30
07757 633249

YSGOL GYFUN RHYDFELEN

www.rhydfelen.org.uk

Lluniau - Tudalen 16

Llangrannog
Ym mis Medi aeth blwyddyn saith am wythnos i Langrannog. Roedd yna lawer o bethau i'w gwneud, fel mynd am dro i'r traeth, gwibgartio, nofio a llawer mwy i wneud drwy'r dydd.

Yn y nos cawsom lawer o hwyl! Roeddem ni yn chwarae Bingo, cawsom ddisgo a thwmpath, eisteddfod, cwis ac amser i fynd i'r siop. Roedd Llangrannog yn llawer o hwyl a sbri!
Natalie Owen (Blwyddyn 7)

Llongyfarchiadau
Llongyfarchiadau i Ethan Brown o Flwyddyn 7 am ddod yn ail yn y gystadleuaeth "Mastermind" i ddisgyblion. Fe fydd y rhaglen yn cael ei ddarlledu ddechrau Rhagfyr ar S4C. Da iawn ti!

X Factor
Cafodd Jay Worley o Flwyddyn 11 gyfle i ymddangos ar raglen yr X Factor yn ddiweddar. Dyma'i adroddiad:

Cefais bedwar clyweliad gyda staff yr X Factor cyn cael clyweliad ym Mis Ebrill gyda beirniaid yr X Factor. Roedd o'n foment ofnus iawn o flaen pedwar person sy'n gallu newid eich bywyd. Cefais dri "Ie" gan Simon Cowell, Dannii Minogue a Louis Walsh ac un "na" gan Cheryl Cole.

Yna yng nghanol y gwyliau haf es i Lundain, yn yr O2 Arena i gystadlu yn "Boot Camp". Fe es i drwyddo i rownd dau o "Boot Camp" ond yn anffodus es i mas o'r gystadleuaeth ar ôl i'r beirniaid gyhoeddi bod traean o'r cystadleuwyr yn mynd adref y noson honno.

Roedd y profiad yn un campus ac fe gwrddais â llawer o gantorion bendigedig..

Jay Worley (Blwyddyn 11)

Taith Gerddoriaeth a Drama
Ar y 14eg o Hydref fe aeth criw o flynyddoedd 9 - 13 ar daith Cerddoriaeth a Drama i Lundain i weld dwy sioe Mama Mia a Les Miserables.

Ar ôl siwrne hir ar y bws cyrhaeddom ni Covent Garden am ginio. Cawsom gyfle i grwydro o gwmpas yr ardal ac i ymweld â Sgwâr Trafalgar lle roeddent yn brysur yn paratoi ar gyfer yr orymdaith Olympaidd. Ar ôl swper yn Bella Italia gwelsom berfformiad o sioe Mama Mia yn Theatr Tywysog Cymru. Sioe sy'n seiliedig ar ganeuon y grŵp pop ABBA. Erbyn y diwedd roedd pawb ar eu traed yn canu ac yn dawnsio!

Drannoeth roedd yn rhaid codi'n gynnar i frecwast. Nid oedd hyn yn plesio'r rhai a fu'n effro tan oriau man y bore! Ar ôl gadael y gwesty teithiom i ogledd y ddinas am weithdy "Stage Combat" lle dysgom sut mae actorion mewn sioeau a ffilmiau yn ymladd heb greu unrhyw niwed i'w hunain. Cawsom gyfle i holi prif gymeriad y sioe Mama Mia a ddaeth yn unswydd i siarad â ni'r bore hwnnw ynglŷn â bywyd fel actores yn y "West End".

Yn y prynhawn cawsom gyfle i grwydro a gwario arian ar Oxford Street, un o brif strydoedd siopa'r ddinas, ac ar ôl swper aethom i weld perfformiad o'r sioe Les Miserables, sioe sydd wedi bodoli yn Llundain ers 23 o flynyddoedd sy'n son am y Chwyldro yn Ffrainc.

Ar y Dydd Iau cawsom daith o amgylch y Theatr Royal, Drury Lane a Theatr y Glôb, dwy theatr hardd iawn! Cyn dychwelyd adref cawsom un cyfle arall i siopa, yn Harrods y tro hwn! Ar ôl crwydro o amgylch siop fwyaf moethus Llundain aeth pawb am y bws yn barod am y daith adref. Roedd hi'n daith hwyliog a chyffrous dros ben!

Gwern Parri (Blwyddyn 10)

Dyddiadur Taith Costa Rica Haf 2008 (Rhan 2)

29 Gorffennaf 2008
Roeddem wedi cymryd bws o La Fortuna i bentref o'r enw Javillos. Yno roeddem yn gweithio ar brosiect o'r enw Asis ac yn aros gyda theuluoedd lleol. Ar ôl dod oddi ar y bws, cymerodd ychydig i ni ffeindio Asis. Wedi i ni ddod o hyd i'r lle cawsom ein gyrru at y teuluoedd lle roeddem yn mynd i fod yn aros. Wrth aros gyda'r teuluoedd hyn roedd yn mynd i fod yn anodd dros ben gan nad oedd gair o Saesneg yn cael ei siarad!

30 Gorffennaf 2008
Codi'n gynnar er mwyn dechrau'r gwaith ar y prosiect heddi! Cawsom gyfle i edrych o gwmpas y prosiect a gweld yr holl anifeiliaid oedd ganddynt fel mwncïod, kinkajou, adar gwyllt a chrocodeil cayman. Roedd dwy dasg i'w gwneud. Un oedd adeiladu pwll newydd i'r crocodeil cayman, lle roedd rhaid i ni glirio coed a phob math o blanhigion o'r ddaear i wneud lle i'r pwll.

Yr ail oedd adeiladu twlc newydd i'r moch gwyllt lle roedd rhaid i ni nôl cerrig o'r afon a bwrw nhw i mewn i'r llawr ar gyfer y moch neu "pecari".

Ar ôl gweithio, yn y prynhawn, cawsom ein harwain ar daith gerdded o amgylch darn o'r goedwig yn agos at le roeddem yn aros a gwelsom bob math o blanhigion a llond llaw o frogaod gwenwynig!

Cawsom gyfle i ymlacio gyda'r nos a bwyta bwyd traddodiadol gyda'r teuluoedd yr oeddem yn byw gyda nhw. Wrth aros cawsom bob math o fwyd traddodiadol, wastad gyda reis a ffa!

31 Gorffennaf 2008
Bore cynnar arall, yna mwy o waith caled ar y prosiect. Cawsom gyfle i fynd yn ôl i'n tai i newid ac i gael mwy o fwyd traddodiadol cyn mynd i weld canolfan ailgylchu lleol. Gwelsom ganolfan lle roedd menywod yn creu gemwaith allan o ddeunyddiau wedi'u ailgylchu a hyd yn oed yn gwneud papur allan o bob math o bethau gan gynnwys coeden banana!

1 Awst 2008
Mwy o waith caled ar y prosiect a chael cyfle arall i dreulio amser gyda'r holl anifeiliaid yna cyn mynd yn ôl i newid ac i fwyta! Yn y prynhawn fe gawsom ni gyfle i baratoi arbenigrwydd lleol o'r enw "Tomales". Roeddem yn defnyddio pob math o gynhyrchion yna'n lapio'n cynnyrch mewn deilen oddi ar goeden banana i'w goginio.

2 Awst 2008
Roedd rhaid pacio a ffarwelio gyda'n teuluoedd a gwneud y swydd anodd o ddweud pa mor ddiolchgar roeddem ni yn Sbaeneg! Wrth aros gyda'r bobl leol cawsom gyfle i brofi sut roeddynt yn byw, a chawsom gyfle i fwyta pob math o fwyd yn enwedig ffrwythau arbennig! Yna roedd rhaid dal bws o'r pentref i'r ddinas agosaf, yna bws arall i'r Brif–ddinas San Jose. Roeddem yn llwyddiannus yn cyrraedd San Jose, ond roedd yn anodd ar ddiwrnod un o'r gwyliau mwyaf yng Nghosta Rica, lle mae'r bobl yn mynd ar bererindod i San Jose. Fe gyrhaeddom ni'n flinedig tu hwnt ond doedd dim llawer o orffwys oherwydd roedd rhaid paratoi am gam nesaf yr antur. Pum diwrnod o gerdded yng Nghoedwig glaw Corcovado.

Mwy yn y rhifyn nesa!

Alun Evans (Blwyddyn 13)

Lluniau Ysgol Gyfun Rhydfelen

Mwynhau yn Llangrannog!

Cael hwyl yn cyfeiriannu

Jay Worley (Blwyddyn 11) bu'n profi'r X-Factor

"Mama Mia! !!" -Taith Gerddoriaeth a Drama

Criw o Flwyddyn 11 yn aros yn eiddgar am eu swper ar y daith i Lundain

Jemma a Carys gyda'u teulu yng Nghosta Rica

Gweithio yn yr afon

Benjamin y Kinkajou

Prynwch eich copi o

Tafod Elái

£6 am y flwyddyn

Oddi wrth eich dosbarthwyr lleol neu
029 20890040